



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adolygiad Dilynol o'r Cynnydd a wnaed o ran Gweithredu Argymhellion Adroddiad Lleol Moderneiddio Tâl: Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG

Bwrdd Iechyd Cwm Taf

Blwyddyn archwilio: 2012-13

Cyhoeddwyd: Mehefin 2013

Cyfeirnod y ddogfen: 272A2013

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Cwm Taf fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Elaine Matthews.

Cynnwys

Mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn rhoi blaenoriaeth i weithredu ein hargymhellion, ac mae wedi gwneud cynnydd graddol tuag at sefydlu adolygiadau trylwyr o gynlluniau swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol, ond nid yw pob Cyfarwyddiaeth yn gwneud cynnydd ar yr un cyflymder.

Adroddiad cryno	4
<hr/>	
Atodiadau	
<hr/>	
Cynnydd yn erbyn ein hargymhellion yn adroddiad Cwm Taf <i>Moderneiddio Tâl: Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG</i>	6
<hr/>	
Adroddiad cynllun swyddi meddygon ymgynghorol fel ar ddiwedd mis Ionawr 2013	14
<hr/>	

Adroddiad cryno

Crynodeb

1. Daeth y Contract Cenedlaethol diwygiedig i Feddygon Ymgynghorol yng Nghymru i rym ar 1 Rhagfyr 2003. Gan fod y contract newydd yng Nghymru yn diwygio contract sydd eisoes yn bodoli, roedd yn rhwymo pob meddyg ymgynghorol yng Nghymru. Mae hyn yn wahanol i'r contractau y cytunwyd arnynt yng ngweddill y DU, lle'r oedd y telerau ac amodau newydd ond yn berthnasol i feddygon ymgynghorol newydd a benodwyd ar ôl y dyddiadau ar wahân y cytunwyd arnynt. Nod y cytundebau newydd hyn oedd sicrhau tair mantais benodol ar gyfer y GIG:
 - gwella amgylchedd gwaith meddygon ymgynghorol;
 - gwella lefelau recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol; a
 - helpu rheolwyr iechyd a meddygon ymgynghorol i gydweithio'n agosach i ddarparu gwasanaeth gwell i gleifion yng Nghymru.
2. Dylai'r contract fod yn seiliedig ar waith cynllunio swyddi effeithiol. Mae cynllunio swyddi yn effeithiol yn sicrhau bod y meddyg ymgynghorol unigol a'i gyflogwr yn cytuno ar gynnwys, amserlen a chanlyniad gweithgareddau sy'n rhan o'r wythnos waith. Yn ôl y contract, dylai wythnos waith 'nodweddiadol' gynnwys saith sesiwn o Ofal Clinigol Uniongyrchol (DCC) a thair sesiwn ar gyfer Cefnogi Gweithgareddau Proffesiynol (SPA).
3. Ar ddiwedd 2010, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad i weld a lwyddwyd i sicrhau manteision y Contract i Feddygon Ymgynghorol yng Nghymru yn unol â'r bwriad. Cynhaliwyd y gwaith hwn ymhob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth a oedd yn cyflogi niferoedd sylweddol o feddygon ymgynghorol. Cyflwynwyd crynodeb o'n canfyddiadau ledled Cymru ym mis Chwefror 2013¹, gydag argymhellion ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd lleol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad cyffredinol nad oedd y manteision yn cael eu sicrhau yn ôl y bwriad gan nad oedd y contract diwygiedig yn seiliedig ar gynllunio swyddi effeithiol.
4. Yn ôl casgliad adroddiad lleol² Bwrdd Iechyd Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, er bod proses gynllunio swyddi ar waith, roedd angen gwella'r broses, ac nid oedd y Bwrdd Iechyd na'r meddygon ymgynghorol yn cael yr holl fanteision posibl o'r contract meddygon ymgynghorol eto. Aethom at i gyflwyno chwe argymhelliad i geisio gwella agwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio swyddi a sicrhau manteision y contract ar gyfer meddygon ymgynghorol.

¹ *Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd*, Swyddfa Archwilio Cymru, 28 Chwefror 2013:

<http://www.wao.gov.uk/cy/publication/consultant-contract-wales-progress-securing-intended-benefits>

² *Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Moderneiddio Tâl: Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG*, Swyddfa Archwilio Cymru, Mawrth 2011:

https://www.wao.gov.uk/cy/system/files/publications/CTHB_Pay_Modernisation_Welsh_2011.pdf

-
5. Ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad lleol, mae'r Cyfarwyddwr Meddygol wedi cyflwyno diweddariadau rheolaidd i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion, a chyflwynwyd yr un diweddaraf ym mis Ionawr 2013. Mae monitro cynnydd yn erbyn adolygiadau o gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol yn rhan o'r metrics a gyhoeddir bob mis gan yr Adran Gwybodaeth am y Gweithlu. Ym mis Mawrth 2013, daeth y metrics yn rhan o Ddangosfwrdd Perfformiad y Bwrdd Iechyd, sy'n cael ei adolygu gan y Bwrdd.
 6. Fel rhan o raglen waith archwilio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13, archwiliwyd y cynnydd a wnaed o ran gweithredu ein hargymhellion o fis Mawrth 2011. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu dogfennau a chyfweld â'r Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol, y Rheolwr Gwireddu Manteision, a sampl fach o Reolwyr Cyfarwyddiaethau.
 7. Dyma ein casgliad: Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi blaenoriaeth i weithredu ein hargymhellion, ac mae wedi gwneud cynnydd graddol tuag at sefydlu adolygiadau trylwyr o gynlluniau swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol, ond nid yw pob Cyfarwyddiaeth yn gwneud cynnydd ar yr un cyflymder.
 8. Rydym yn cyflwyno asesiad o gynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion yn **Atodiad 1**. Disgwylir i'r holl argymhellion gael eu cwblhau cyn diwedd mis Rhagfyr 2013.

Atodiad 1

Cynnydd yn erbyn ein hargymhellion yn adroddiad Cwm Taf *Moderneiddio Tâl: Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG*

Argymhelliad	Cynnydd a wnaed	Statws a dyddiad cwblhau arfaethedig
<p>A1 Mae proses o gynllunio swyddi ar waith yn y Bwrdd Iechyd a nododd y rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol fod ganddynt gynllun swydd cyfredol sydd wedi'i adolygu o fewn y 18 mis diwethaf fan bellaf. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob meddyg ymgynghorol yn cael adolygiad blynyddol o'i gynllun swydd.</p>	<p>Ar ôl oedi dechrau'r gwaith er mwyn trefnu cymorth priodol ar gyfer y Cyfarwyddwr Meddygol, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd graddol bellach tuag at sefydlu systemau ac adolygu cynlluniau swyddi ar gyfer pob meddyg ymgynghorol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos brwdfrydedd wrth geisio gwella ei brosesau cynllunio swyddi i helpu i sicrhau manteision y contract i feddygon ymgynghorol. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol wedi rhoi blaenoriaeth uchel i gynllunio swyddi blynyddol. Penododd Reolwr Gwireddu Manteision ym mis Ebrill 2012 i gynorthwyo'r holl gyfarwyddiaethau, ac mae gan yr unigolyn hwn brofiad helaeth o'r contract ac o gynllunio swyddi. Fe'i cynorthwyir gan y Cyfarwyddwr Meddygol, y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol a'r Grŵp Llywio Gwireddu Manteision, a chynhaliwyd tri chyfarfod rhyngddynt yn 2012.</p> <p>Mae'r Rheolwr Gwireddu Manteision wedi datblygu systemau drwy ddefnyddio'r Cofnod Staff Electronig (ESR) a thaenlenni sy'n dangos yn glir y cynnydd a wnaed gan bob Cyfarwyddiaeth tuag at gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyfarfod Busnes Clinigol yn derbyn adroddiad ar gynllunio swyddi sy'n dangos cynnydd y broses gynllunio swyddi (hynny yw, cyfarfod adolygu cynlluniau swyddi, diweddarau cynlluniau swyddi a'u cymeradwyo gan feddygon ymgynghorol) ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth. Mae'r cyfarfod hwn yn adolygu cynnydd misol, gan ei adrodd yn ffurfiol fel rhan o fetrics y Bwrdd. Dyma enghraifft o ymarfer da, ac mae'r tabl ar gyfer Ionawr 2013 wedi'i gyflwyno yn Arddangosyn 1 Atodiad 2.</p>	<p>Cwblhawyd i raddau helaeth Targed: 31 Rhagfyr 2013</p>

Argymhelliad	Cynnydd a wnaed	Statws a dyddiad cwblhau arfaethedig
	<p>Erbyn mis Ionawr 2013, roedd 65 y cant o'r cyfarfodydd adolygu cynlluniau swyddi wedi'u cynnal, roedd 14 y cant wedi'u trefnu ar gyfer y pum wythnos ganlynol tra bod yr 21 y cant arall wrthi'n cael eu cynllunio. Mae hyn yn gynnydd da. Fodd bynnag, mae'n cymryd mwy o amser i gwblhau'r broses, gyda dim ond 22 y cant o'r cynlluniau swyddi wedi'u cwblhau, eu cymeradwyo a'u cofnodi ar ESR yn y 18 mis blaenorol. Mae 43 y cant arall o gynlluniau swyddi naill ai'n cael eu cwblhau neu'n aros i feddygon ymgynghorol eu cymeradwyo. Mae argymhelliad 5 yn cynnwys gwybodaeth am broblemau cymeradwyo a rhai atebion ar gyfer cyflymu'r broses.</p> <p>Er nad oes gan bedair Cyfarwyddiaeth unrhyw gynlluniau swyddi ar hyn o bryd, wrth graffu'n fanylach ar y wybodaeth sy'n sylfaen i'r adroddiad hwn, gellir gweld bod adolygiadau o gynlluniau swyddi wedi'u cynnal ar gyfer y rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol mewn dwy o'r pedair Cyfarwyddiaeth (Iechyd Meddwl a Phediatrieg) dros y 12 mis diwethaf, ond nid yw'r cynlluniau wedi'u cymeradwyo eto.</p> <p>Roedd y gwaith o adolygu cynlluniau swyddi pob meddyg ymgynghorol o fewn blwyddyn yn anodd i rai Cyfarwyddiaethau oherwydd bod llawer iawn o feddygon ymgynghorol yn y Gyfarwyddiaeth a oedd yn cael eu hadolygu gan y Cyfarwyddwr Clinigol a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth. Nodwyd eu bod wedi methu trefnu cyfarfodydd mewn un bloc, gan fynd ati yn hytrach i drefnu cyfarfodydd gydol y flwyddyn, sy'n arwain at gynnydd arafach. Mae canslo cyfarfodydd oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd yn arwain at ragor o oedi wrth geisio dod o hyd i ddyddiad arall sy'n gyfleus i bawb. Am y rheswm hwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol wrth y Bwrdd yn ddiweddar y byddai'n treialu targed lleol o gwblhau 85 y cant o adolygiadau cynlluniau swyddi o fewn 12 mis, gan geisio cwblhau 100 y cant ohonynt o fewn 18 mis. Mae hwn yn gyfaddawd rhesymol a dylid parhau i'w adolygu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw lithriad pellach. Mae'r Gyfarwyddiaeth Feddygaeth wedi penodi dau Ddirprwy Gyfarwyddwr Clinigol ychwanegol yn ddiweddar, ac wrth gydweithio â'r tîm cynllunio swyddi, dylent allu adolygu'r holl gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol yn y gyfarwyddiaeth fawr hon.</p>	

Argymhelliad	Cynnydd a wnaed	Statws a dyddiad cwblhau arfaethedig
	<p>Ar y llaw arall, mae rhai Cyfarwyddiaethau'n gwneud cynnydd da iawn. Er enghraifft, llwyddodd y Gyfarwyddiaeth Anaestheteg i neilltuo pythefnos ym mis Ionawr 2013 i gyfarfod â phob un o'r meddygon ymgynghorol er mwyn adolygu eu cynlluniau swyddi, a gwnaeth yr un peth ym mis Ionawr 2012. O ganlyniad, roedd modd adolygu'r holl gynlluniau swyddi ar yr un pryd, gan helpu i ail-amserlennu gwaith pob meddyg ymgynghorol. Mae amserlen fer yn pwysleisio tegwch, gan na fydd modd cyflawni pob cais am newidiadau, ond gall pawb weld y newidiadau a gyflwynwyd a'u heffaith. Mae llawer o gynlluniau swyddi yn dibynnu ar gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol eraill, felly mae'n bwysig ystyried unrhyw newidiadau gyda'i gilydd.</p> <p>Gofynnodd rhai Cyfarwyddiaethau am gymorth gan y Rheolwr Gwireddu Manteision i ddatblygu dulliau arloesol o ddefnyddio gwaith cynllunio swyddi, er enghraifft, datblygu tri diwrnod o sesiynau, cynllunio swyddi timau neu oriau blyneddol. Bydd y Rheolwr Gwireddu Manteision yn gallu rhannu unrhyw arferion da neu broblemau sy'n deillio o ddulliau newydd o gynllunio swyddi ledled y Bwrdd lechyd i helpu Cyfarwyddiaethau eraill.</p> <p>Roedd pob Rheolwr Cyfarwyddiaeth a gafodd ei gyfwrdd yn cytuno bod manteision adolygu cynlluniau swyddi yn rheolaidd yn sylweddol i bawb, er gwaetha'r ffaith fod angen llawer o amser i wneud y gwaith. Er y bydd y Bwrdd lechyd yn gwneud arbedion lle bo modd lleihau nifer y sesiynau, mewn achosion eraill bydd y costau yn cynyddu os yw'r adolygiad yn nodi bod angen cynyddu'r sesiynau. Mae modd defnyddio'r cyfarfod i gynorthwyo'r meddyg ymgynghorol hefyd drwy roi sylw i faterion lles ac ymarferol, fel mynediad i TG.</p>	

Argymhelliad	Cynnydd a wnaed	Statws a dyddiad cwblhau arfaethedig
<p>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd roi canllawiau ysgrifenedig clir i feddygon ymgynghorol er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o ddull y Bwrdd Iechyd o gynllunio swyddi, gan gynnwys ei ddull o ddatblygu canlyniadau CAMPUS.</p>	<p>Mae'r Rheolwr Gwireddu Manteision wedi drafftio canllawiau sy'n tynnu ar brofiad Byrddau Iechyd eraill. Fe'u drafftiodd ym mis Mehefin 2012 ond nid oeddent wedi'u cwblhau na'u cyhoeddi adeg yr adolygiad hwn. Mae ein hadolygiad o'r canllawiau drafft yn dangos eu bod yn gynhwysfawr ac y byddant yn arwain at ddealltwriaeth glir o'r disgwyliadau ar gyfer cynllunio swyddi i bawb perthnasol. Ar ôl cwblhau'r canllawiau, bydd angen rhoi gwybod amdanynt i bob aelod o staff perthnasol.</p> <p>Cafodd Cyfarwyddwyr Clinigol a Rheolwyr Cyfarwyddiaethau wahoddiad i fynychu hyfforddiant fel rhan o broses gynllunio swyddi'r Bwrdd Iechyd yn yr Uwchgynhadledd Gynllunio Swyddi ym mis Medi 2012. Ond dywedodd y Rheolwyr Cyfarwyddiaethau a gafodd eu cyfwrdd nad oeddent wedi mynychu unrhyw hyfforddiant ffurfiol. Er bod rhai Rheolwyr Cyfarwyddiaethau yn hyderus bod ganddynt yr holl gymorth sydd ei angen arnynt, byddai eraill yn croesawu rhagor o hyfforddiant a chanllawiau. Wedi dweud hynny, roedd pob Rheolwr Cyfarwyddiaeth a gafodd ei gyfwrdd yn teimlo'n gadarnhaol am y cymorth unigol sy'n cael ei ddarparu gan y Rheolwr Gwireddu Manteision cyn, yn ystod ac ar ôl cyfarfodydd adolygu cynlluniau swyddi. Mae'r Cyfarwyddwyr Clinigol yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio swyddi yn y Fforwm Arwain Meddygol.</p> <p>Wrth edrych ymlaen, mae'r Rheolwr Gwireddu Manteision yn datblygu cymorth pellach drwy ddiwyddiad dysgu gweithredol/hyfforddi ar gyfer Cyfarwyddwyr Clinigol a Rheolwyr Cyfarwyddiaethau yn ystod hydref 2013.</p>	<p>Cwblhawyd i raddau helaeth Targed: 30 Medi 2013</p>

Argymhelliad	Cynnydd a wnaed	Statws a dyddiad cwblhau arfaethedig
<p>A3 Os na all arbenigedd gael gafael ar wybodaeth dda am berfformiad, dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r trefniadau presennol neu ddatblygu dangosyddion canlyniadau newydd o fewn yr arbenigeddau hyn.</p>	<p>Dechreuodd y Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn drwy gynnal cylch 60 diwrnod ar reoli data ar gyfer cynllunio swyddi ym mis Ebrill 2012. Bydd astudiaethau peilot ym mhedwar maes o'r Bwrdd Iechyd (Radioleg, Meddyginiaeth, Anaestheteg a Phatholeg) yn llywio gwelliannau rheoli data, ac mae Cyfarwyddiaethau'n datblygu dangosyddion lleol penodol. Mae gan rai meysydd (er enghraifft, Anaestheteg a Radioleg) symiau sylweddol o ddata sy'n cael eu defnyddio i drafod perfformiad yng nghyfarfod adolygu cynlluniau swyddi, a gellir ei ddefnyddio i ddatblygu dangosyddion canlyniadau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Mae llai o ddata ar gael ar gyfer meysydd eraill (er enghraifft, Iechyd Meddwl) ac mae angen iddynt barhau i ddatblygu gwybodaeth am berfformiad i helpu i ddatblygu dangosyddion canlyniadau unigol.</p> <p>Mae'r Adran Berfformiad a Gwybodaeth yn parhau i weithio gyda'r Cyfarwyddiaethau i lunio cyfres o ddangosyddion ar gyfer cynlluniau swyddi. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cefnogi'r gwaith hwn yn ddiweddar drwy gymeradwyo cynyddu adnoddau dynol yn yr Adran Wybodaeth, gan gynnwys penodi Dadansoddwr Data penodedig, er mwyn cysylltu â chlinigwyr ynglŷn â data eu gweithgarwch. Mae'r rhain yn gamau cadarnhaol a ddylai helpu i symud yr agenda hon ymlaen.</p>	<p>Cwblhawyd yn rhannol Targed: 31 Rhagfyr 2013</p>

Argymhelliad	Cynnydd a wnaed	Statws a dyddiad cwblhau arfaethedig
<p>A4 Mae angen i'r Bwrdd lechyd atgyfnerthu trefniadau presennol drwy sicrhau bod y Cyfarwyddwr Clinigol a'r Rheolwr Cyffredinol yn cymryd rhan yn y cyfarfod i adolygu'r cynllun swydd ym mhob cyfarwyddiaeth.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi hysbysu pob cyfarwyddiaeth bod angen i'r Cyfarwyddwr Clinigol a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth fynychu pob cyfarfod i adolygu cynlluniau swyddi. Dywedodd Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Anestheteg fod y trefniant hwn wedi gweithio'n dda gan fod y Cyfarwyddwr Clinigol yn gallu canolbwyntio ar yr agweddau clinigol tra bod Rheolwr y Gyfarwyddiaeth yn canolbwyntio ar nifer y sesiynau ac ystyriaethau corfforaethol eraill. Dywedodd y Rheolwr y Gyfarwyddiaethau ei bod yn ddefnyddiol iawn iddyn nhw a'r Cyfarwyddwyr Clinigol fynychu gan y gallent hyrwyddo dealltwriaeth unedig o sefyllfa'r Bwrdd lechyd.</p> <p>Er bod y rhai a gafodd eu cyfnewid wedi nodi ei bod yn bwysig iawn i'r Cyfarwyddwr Clinigol a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth fynychu, y gofyniad hwn yw'r rhwystr mwyaf i gwblhau'r holl adolygiadau o gynlluniau swyddi yn gyflym bob blwyddyn oherwydd y nifer fawr o feddygon ymgynghorol a'r prinder amser, yn enwedig o safbwynt y Cyfarwyddwyr Clinigol sydd â llwyth gwaith clinigol hefyd. Fel y nodwyd yn Argymhelliad 1, gallai pennu targed lleol o gwblhau 85 y cant o adolygiadau o gynlluniau swyddi o fewn 12 mis, a 100 y cant o fewn 18 mis, helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, bydd angen parhau i adolygu'r targed gan y gallai arwain at lithriad pellach.</p>	<p>Cwblhawyd</p>


Argymhelliad	Cynnydd a wnaed	Statws a dyddiad cwblhau arfaethedig
<p>A5 Mae angen i'r Bwrdd lechyd gyflwyno trefniadau i sicrhau y cytunir ar gynllun swydd yn ffurfiol gan y meddyg ymgynghorol unigol a'r cyfarwyddwr clinigol, ac y caiff y cytundeb hwnnw ei ddogfennu.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cynlluniau swyddi sydd wedi'u cwblhau yn cael eu llofnodi'n brydlon. Nes bod y ffurflen wedi'i llofnodi, ni all y Gyfarwyddiaeth ddatgan bod yr adolygiad o gynlluniau swyddi wedi'i gwblhau. Mae hyn yn effeithio ar y gwaith monitro, ond yn bwysicach na hynny, gall achosi problemau os oes anghydfod rhwng y meddyg ymgynghorol a'r Bwrdd lechyd. Erbyn hyn mae Cyfarwyddiaethau'n annog llofnodi a dychwelyd copïau caled neu sganio copïau a'u hebostio. Mae'r system a ddatblygwyd i fonitro'r gwaith o gwblhau adolygiadau o gynlluniau swyddi yn ffordd dda i Gyfarwyddiaethau fesur eu cynnydd, gan gynnwys a yw'r cynllun swydd wedi'i gymeradwyo ai peidio. Mae llythyr 'atgoffa' wedi'i ddrafftio bellach fel bod yr Arweinydd Clinigol Cynllunio Swyddi yn gallu atgoffa meddygon ymgynghorol os oes angen.</p> <p>Nododd nifer fach o Gyfarwyddiaethau ei bod yn anodd sicrhau bod pob un o'r cynlluniau swyddi yn cael eu cymeradwyo yn brydlon. Dywedodd y Rheolwr Gwireddu Manteision a'r Rheolwyr Cyfarwyddiaethau a gafodd eu cyfweled nad oedd problem o safbwynt meddygon ymgynghorol yn osgoi llofnodi neu ddychwelyd cynlluniau swyddi wedi'u cwblhau yn fwriadol. Y rheswm am yr oedi yn eu barn nhw yw'r ffaith fod y meddygon ymgynghorol yn meddwl bod y broses wedi dod i ben ar ôl iddynt gwblhau'r ffurflenni a chymryd rhan yn y cyfarfod. Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau nad oes unrhyw resymau eraill dros oedi cymeradwyo cynlluniau swyddi sydd wedi'u cwblhau.</p> <p>Mae nifer o atebion ar waith. Mae'n well gan rai cyfarwyddiaethau ddefnyddio copi caled i'w sganio a'i e-bostio i'r Rheolwr Gwireddu Manteision. Mae eraill yn anfon copïau caled. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cyflwyno proses e-lofnodi fel bod meddygon ymgynghorol yn gallu defnyddio e-bost i lofnodi, ac mae'r datblygiad hwn yn gam cadarnhaol. Mae Cyfarwyddwyr Meddygaeth, Gofal Lliniarol, Patholeg a'r Cyfarwyddwyr Clinigol yn defnyddio e-lofnod ar gyfer adolygiadau o'u cynlluniau swyddi eu hunain. Nodir bod y blwch negeseuon e-bost dynodedig ar gyfer cynlluniau swyddi yn gweithio'n dda hefyd. Fodd bynnag, nid oedd pob un o'r Rheolwyr Cyfarwyddiaethau a gafodd eu cyfweled yn ymwybodol o'r cyfleuster hwn, ac mae'r Swyddog Gwireddu Manteision yn bwriadu atgoffa'r holl Reolwyr Cyfarwyddiaethau bod modd iddynt ddefnyddio e-lofnodion yn eu Cyfarwyddiaethau.</p>	<p>Cwblhawyd i raddau helaeth Targed: 30 Mehafin 2013</p>

Argymhelliad	Cynnydd a wnaed	Statws a dyddiad cwblhau arfaethedig
<p>A6 Mae angen i'r Bwrdd lechyd gyfleu neges gliriach ynghylch beth yw gweithgarwch SPA a'r angen i sicrhau bod canlyniadau sydd wedi'u diffinio'n glir yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad o'r cynllun swydd ar gyfer pob SPA.</p>	<p>Mae canllawiau drafft y Bwrdd lechyd yn nodi'n glir ddisgwyliadau'r Bwrdd lechyd ynghylch beth yw gweithgarwch Gweithgareddau Proffesiynol Ategol (SPA), a bod angen i'r meddyg ymgynghorol gyflwyno tystiolaeth i gyfiawnhau'r amser a dreuliwyd ar weithgareddau SPA. Mae rhai Cyfarwyddiaethau (er enghraifft, Anestheteg) eisoes wedi cyflwyno gofynion llym ynghylch beth yw gweithgarwch SPA gan nodi faint o amser sydd ei angen i gwblhau pob gweithgaredd. Maent hefyd wedi nodi faint o amser SPA y dylid ei dreulio ar arfarnu, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a chyflawni gweithgareddau a ddewiswyd gan y Bwrdd lechyd, er enghraifft, archwiliadau a swyddogaethau arwain penodol yn ogystal â gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y meddyg ymgynghorol. Mae'r Fforwm Arwain Meddygol wedi trafod 'tariffau' SPA. Cynhelir rhagor o drafodaethau yn ystod cyfarfod o'r Cyfarwyddwyr Clinigol ym mis Medi a drefnir i drafod gweithgarwch SPA yn benodol. Bydd y camau hyn yn ategu'r gwaith o gyflwyno'r canllawiau ac yn gyfle i sefydlu'r dull gweithredu hwn ym mhob Cyfarwyddiaeth.</p> <p>Mae'r Rheolwr Gwireddu Manteision yn coladu'r holl weithgarwch SPA, sy'n cael ei archwilio gan yr Arweinydd Clinigol Cynllunio Swyddi a'r Dirprwy Gyfarwyddwyr, gan adrodd y canfyddiadau i'r Cyfarwyddwyr Clinigol a'r Rheolwyr Cyfarwyddiaethau.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwyr Clinigol a'r Rheolwyr Cyfarwyddiaethau hefyd yn nodi'r cysylltiad rhwng gweithgarwch SPA a gwaith arfarnu ac ail-ddilysu, fel bod meddygon ymgynghorol yn gallu gweld bod modd defnyddio eu gweithgarwch SPA yn eu portffolios at ddibenion ail-ddilysu. Dyma enghraifft o ymarfer da.</p>	<p>Cwblhawyd i raddau helaeth Targed: 31 Hydref 2013</p>

Atodiad 2

Arddangosyn 1: Data'r Cyfarwyddiaethau ar gynnydd tuag at gwblhau adolygiadau o gynlluniau swyddi ar gyfer pob meddyg ymgynghorol

Adroddiad ar Gynlluniau Swyddi Meddygon Ymgynghorol fel ar ddiwedd Ionawr 2013



Ffynhonnell: Rheolwr Gwireddu Manteision, Bwrdd Iechyd Cwm Taf



WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk